# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Ionawr 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Faint o bobl dan 65 oed sy'n marw o afiechydon sy’n gysylltiedig ag ysmygu yng Nghymru. (WAQ21897)

**Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Beth yw cost trin afiechydon a achoswyd gan ysmygu i GIG Cymru. (WAQ21898)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A fydd y Gweinidog yn parhau i gyhoeddi penodiadau Cadeiryddion Ymddiriedolaethau’r GIG yn y wasg, fel y soniwyd yn y Western Mail ar ddydd Mawrth 31 Rhagfyr 2002, a beth fydd cyfanswm cost yr ymarfer hwn. (WAQ21913) **R**

**David Davies (Mynwy);** Faint y mae’r GIG yng Nghymru wedi'i wario ar drefnu cynadleddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. (WAQ21867)

**David Davies (Mynwy);** Faint sy'n cael ei wario bob blwyddyn ar uned gydraddoldeb y GIG. (WAQ21868)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gymharu'r ddarpariaeth o wasanaethau a nodir yn adroddiad Canolfan Sainsbury "Primary Solutions" gyda'r rhai yng Nghymru. (WAQ21869)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn bwrw ymlaen â’r adolygiad o lawdriniaethau nerfol pediatrig yng Nghymru. (WQA21870)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adolygiad o lawdriniaethau nerfol pediatrig yng Nghymru. (WAQ21871)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod cleifion sydd angen llawdriniaeth orthopedig yn cael eu trin yn gynt nag y maent ar hyn o bryd. (WAQ21872)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer staff y GIG. (WAQ21873)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar restrau aros y GIG. (WAQ21874)

**Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf ynglyn â'r cynllun i ddarparu ysbyty cymunedol newydd yn Ninbych-y-Pysgod. (WAQ21815) **W**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Ar gyfer pob Awdurdod Iechyd yng Nghymru: faint o Feddygon Teulu sydd wedi cael eu penodi yng Nghymru bob blwyddyn ers 1997, ac a wnaiff y Gweinidog nodi nifer y rhai a benodwyd yn Feddygon Teulu rhan amser. (WAQ21916) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o Feddygon Teulu sydd wedi gadael y proffesiwn bob blwyddyn ers 1997 o fewn pob Awdurdod Iechyd yng Nghymru. (WAQ21917) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Ar gyfer pob Awdurdod Iechyd yng Nghymru: faint o Feddygon Teulu sydd wedi dychwelyd i'r maes bob blwyddyn ers 1999, ac a wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o'r rhai a ddaeth yn ôl wnaeth dderbyn grantiau 'Croeso Euraid'. (WAQ21918) **R**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor*

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gytuno i lansio ymchwiliad llawn i'r gwahaniaeth mawr o ran amser rhwng gaddo rhoi cymorth ariannol Ewropeaidd i ffermwyr a rhoi'r cymorth ariannol iddynt. (WAQ21899)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd o ganlyniad i'r honiad fod cath fawr wedi cael ei gweld yn ardal Llangadog. (WAQ21914)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i ddiogelu busnesau gwledig a chymunedau rhag cathod mawr sy'n byw'n wyllt yng Nghymru. (WAQ21875)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi goblygiadau cael cathod rheibus mawr yn crwydro cefn gwlad Cymru i ffermwyr ac i'r gymuned yn gyffredinol. (WAQ21876)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatganoli pwerau'r

Comisiwn Coedwigaeth ymhellach yng Nghymru. (WAQ21877)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gymorthdaliadau Ewropeaidd i ffermwyr. (WAQ21879)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith rheoliadau'r UE ar ladd-dai bach. (WAQ21880)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Cyswllt Ffermio. (WAQ21881)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Faint o siopau Cigydd yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru i werthu cig oen a chig eidion Cymreig yn 2002. (WAQ21919)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y swyddi athrawon ieithoedd tramor sy'n wag mewn ysgolion cyfun. (WAQ21882)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i leihau'r gwaith papur mewn ysgolion. (WAQ21883)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Beth all y Gweinidog ei wneud i annog mwy o athrawon dan hyfforddiant i weithio yn y sector addysg uwchradd yn hytrach na'r sector cynradd. (WAQ21884)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae hi'n bwriadu mynd i'r afael â'r anghysondeb bod athrawon dan hyfforddiant yn dewis gweithio yn y sector cynradd ond bod llai o siawns iddynt gael swydd yn y sector honno. (WAQ21885)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Yng ngoleuni'r ffigurau a ryddhawyd gan y General Teaching Council for England a oedd yn dangos bod un o bob tri athro yn disgwyl gadael dysgu o fewn pum mlynedd, beth yw'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru. (WAQ21886) **R**

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddefnyddio 'mentrau grym cyfoedion' i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion yng Nghymru. (WAQ21887) **R**

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Faint o'r arian newydd yng nghyllideb addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar fydd yn mynd i'r Mudiad Ysgolion Meithrin i'r pwrpas o ddenu a chynnal penaethiaid ar gyfer y cylchoedd meithrin. (WAQ21888) **W**

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu y bydd yr arian ar gyfer cwrdd â'r ymrwymiadau o dan "Raising Standards and Tackling workload: a national agreement" yn cael ei ddyrannu i ysgolion. (WAQ21902)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod pob athro ym mhob ysgol yn cael cynnig, ac yn derbyn, y 10% o amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu gwarantiedig yn ystod amser eu contractau. (WAQ21903)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A fydd yr arian a ddyrannwyd eisoes i ariannu'r ymrwymiadau newydd o dan "Raising Standards and Tackling workload; a national agreement", yn darparu cyllid sy'n cyfateb i'r arian a ddyrannwyd yn Lloegr. (WAQ21904)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A yw'r Gweinidog yn ystyried bod y £21 miliwn dros 3 blynedd a ddyrannwyd eisoes yn ddigon i ariannu'r ymrwymiadau o dan "Raising Standards and Tackling workload: a national agreement". (WAQ21905)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddweud pryd y bydd Ysgol Gynradd Llanfawr yn derbyn y £39,000, neu ei chyfran hi ohono, fel a addawyd gan y Canghellor Gordon Brown ganol 2002. (WAQ21908)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae hi'n bwriadu codi lefelau llythrennedd llafar ymysg plant pum mlwydd oed yn sgil adroddiadau sy'n honni nad yw eu hanner yn barod i fynychu'r Ysgol Gynradd (The Mirror, 9/01/03, tudalen 10). (WAQ21920)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog dderbyn cyfrifoldeb ei hadran am fynd i'r afael â'r problemau yr adroddwyd arnynt nad yw hanner plant 5 oed yng Nghymru yn barod i fynychu'r Ysgol Gynradd am nad ydynt yn gallu siarad yn iawn. (WAQ21921)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddweud pryd y bydd ysgolion cynradd yn cael gwybod i ba raddau y byddant yn elwa o'r £18.7 miliwn o arian ychwanegol a gyhoeddwyd ganol 2002. (WAQ21909)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A allai'r Gweinidog ddweud sut y gallai ysgolion cynradd fel Ysgol Gynradd Llanfawr gyllidebu'n effeithiol a hwythau wedi cael addewid o £39,000 yr un gan Gordon Brown ganol 2002 ond heb dderbyn unrhyw beth hyd yma. (WAQ21910)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau*

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymchwiliad cyfredol yr heddlu i Gyngor Sir y Fflint. (WAQ21866)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** All y Gweinidog wneud datganiad ynghylch lefel y cynnydd yn y grant llywodraeth leol ar gyfer 2003-04, yn nhermau'r gyllideb. (WAQ21906)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** All y Gweinidog gadarnhau a yw'r fformiwla ar gyfer dyrannu'r grant Amddifadedd gwerth £20 miliwn wedi ystyried y dymuniad i gael gwared ar y grant trosiannol, ac a yw hyn wedi effeithio arno. (WAQ21907)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A allai'r Gweinidog fy sicrhau y bydd y £20 miliwn o grant Amddifadedd yn cyrraedd y bobl sy'n byw yn wardiau mwyaf difreintiedig Cymru. (WAQ21924)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar safonau byw yng Nghymru. (WAQ21864)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dwf economaidd yng Nghymru. (WAQ21863)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch dyddiad cynnal refferendwm ar yr Ewro. (WAQ21861)

**David Davies (Mynwy);** Pa grantiau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Swyddfa Gymreig wedi'u talu un ai'n uniongyrchol neu drwy Awdurdod Datblygu Cymru neu unrhyw un o asiantaethau eraill y llywodraeth i Cray Valley Paints ym Machen neu ei gwmni dal, Total Fina Elpha Holdings. (WAQ21912)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw bolisi i dalu iawndal i ffermwyr pan na fydd cronfeydd Amcan Un Ewrop yn cael eu talu o fewn amserlen benodol. (WAQ21922)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A yw'n bolisi gan y Cynulliad Cenedlaethol i dalu'r rhai a gafodd eu cymeradwyo i dderbyn arian Amcan Un o fewn amser penodol. (WAQ21923)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd*

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch dyfodol rheilffyrdd Cymru. (WAQ21865) **W**

**David Davies (Mynwy);** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y posibilrwydd o ryddhau cyllid, yn ychwanegol at y cyllid a glustnodwyd yn y grant bloc, i ymdrin â phroblem ddifrifol llifogydd yn yr Wyddgrug. (WAQ21911)

**Alison Halford (Delyn);** A yw'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau, wrth benderfynu a ddylid rhoi cymorth ariannol i adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd, ei bod yn ystyried materion ychwanegol nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol â materion ariannol. (WAQ21900)

**Alison Halford (Delyn);** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o'r oedi gyda'r gwaith o adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd mewn ardaloedd lle ceir tai cyngor, a bod y gwaith yn cael ei rwystro, gan fod y fformiwla ar gyfer penderfynu lle y dylid adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ffafrio ardaloedd cefnog. (WAQ21901)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw geisiadau am gyllid oddi wrth Undeb Rygbi Cymru. (WAQ21889)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** All y Gweinidog ddweud pa gamau sy'n cael eu cymryd i gynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau ledled Cymru. (WAQ21890)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** All y Gweinidog wneud datganiad ar hynt polisi'r llywodraeth o roi mynediad am ddim i safleoedd o arwyddocâd hanesyddol ledled Cymru. (WAQ21891)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyrwyddo Caerdydd fel canolfan i gynnal digwyddiadau o bwys ym maes chwaraeon. (WAQ21892)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael yn ddiweddar gyda S4C parthed datblygiadau i ddod. (WAQ21893) **W**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y gall y Gweinidog helpu i hyrwyddo cyfraniad pobl Cymru i ddyddiau cynnar sinematograffi a ffotograffiaeth yn y DU fel atyniadau i ymwelwyr ac atyniadau treftadaeth. (WAQ21894)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn hybu cynnydd yn nifer y sinemâu yng Nghymru. (WAQ21895)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau y mae hi wedi'u cael gyda Wales & West Trains ynghylch eu penderfyniad i ganslo gwasanaethau trên i Loegr ar nos Sadwrn 22 Chwefror 2003. (WAQ21896)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch penderfyniad Wales & West Trains i ganslo gwasanaethau i Loegr ar nos Sadwrn 22 Chwefror 2003. (WAQ21862)